WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad Dilynol o Wasanaethau Hamdden – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1823A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, Adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac Adran 15 o Ddeddf Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw’r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn info.officer@audit.wales.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Gareth Jones ac Allison Rees, rheolwyd y rhaglen gan Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau effeithiol i ddatblygu a chytuno ar weledigaeth a strategaeth gyfannol ar gyfer ei wasanaethau chwaraeon a hamdden, ond mae angen iddo gymryd camau pwysig ychwanegol er mwyn cyflawni ei uchelgeisiau strategol.


Adroddiad cryno 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau effeithiol i ddatblygu a chytuno ar weledigaeth a strategaeth gyfannol ar gyfer ei wasanaethau chwaraeon a hamdden, ond mae angen iddo gymryd camau pwysig ychwanegol er mwyn cyflawni ei uchelgeisiau strategol 6

Ar ôl ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, cymeradwyodd y Cabinet strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol ddeng mlynedd 6

Mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei gynllun cyflawni strategaeth er mwyn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, y gwaith sydd ei angen a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflawni ei strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol 8

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

1 Yn 2016, cynhaliwyd adolygiad gennym o Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (y Cyngor). Roedd yr adolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn canlynol: **A yw'r strategaeth yn debygol o ddiwallu anghenion y Cyngor a dinasyddion yn y dyfodol?**

2 Daeth yr adolygiad i'r casgliad **'bod y Cyngor wedi ymateb i'r pwysau ariannol yn 2012 drwy adolygu ei ganolfannau hamdden a'i gyfleusterau adloniant a hamdden awyr agored, ond o gofio ei sefyllfa ariannol gryfach o 2016-17 ymlaen, gall y Cyngor bellach fynd ati i adolygu ei wasanaethau chwaraeon a hamdden mewn ffordd fwy cyfannol a strategol er mwyn sicrhau y gallant, ar y cyd, ddiwallu anghenion ei ddinasyddion yn y dyfodol.'**

3 Daethom i'r casgliad hwn oherwydd ein bod wedi canfod y canlynol ar y pryd:

- roedd y Cyngor wedi adolygu ei gyfleusterau hamdden craidd ond nid oedd ganddo weledigaeth glir na strategaeth chwaraeon a hamdden integredig eto a oedd yn pennu cyfeiriad clir ar gyfer darpariaeth hamdden yn y dyfodol;
- er y gwelwyd rhai enghreifftiau da o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid, nid oedd gan y Cyngor gynllun prosiect na chynllun ymgysylltu i ddatblygu strategaeth chwaraeon a hamdden integredig;
- roedd y Cyngor yn wynebu pwysau cyllidebol sylweddol dros y tymor canolig, ond nid oedd wedi mynd i'r afael yn llawn eto â'r risgiau ariannol cynyddol mewn gwasanaethau chwaraeon a hamdden;
- nes yn ddiweddar, nid oedd y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau chwaraeon a hamdden mewn ffordd ddigon strategol, ond roedd y Cyngor bellach yn atgyfnerthu ei drefniadau rheoli prosiect er mwyn helpu i ddatrys hyn..

4 Gwnaed un cynnig ar gyfer gwella gennym a nodir yn Arddangosyn 1 isod.

Arddangosyn 1: cynnig ar gyfer gwella a wnaed yn 2016

| Cynnig ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Mae angen i'r Cyngor ddatblygu a chytuno ar weledigaeth a strategaeth gyfannol ar gyfer ei wasanaethau chwaraeon a hamdden, a nodi sut y bydd yn cyflawni hyn o fewn y 12 mis nesaf. Wrth wneud hynny, dylai'r Cyngor sicrhau:<br>• goruchwyliaeth gorfforaethol effeithiol o'r broses;<br>• y caiff arbenigedd perthnasol o bob rhan o'r Cyngor ei gynnwys ar gam cynnar;<br>• bod cynllun clir ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid;<br>• bod cysylltiadau clir â chynlluniau a blaenoriaethau corfforaethol allweddol, yn enwedig y cynllun ariannol tymor canolig;<br>• y cynhelir arfarniadau o'r dewisiadau wedi'u seilio ar wybodaeth gadarn a bod costau, buddion, risgiau ac effeithiau pob un o'r dewisiadau yn cael eu hasesu;<br>• yr ystyrir yn briodol effaith y strategaeth a darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol o ran lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy gymhwyso egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru);<br>• y nodir dulliau llywodraethu ac atebolrwydd er mwyn adrodd a monitro'r cynnydd wrth ddatblygu a gweithredu'r weledigaeth a'r strategaeth; ac<br>• yr ystyrir a oes angen cryfhau gallu'r gwasanaeth i ddatblygu a gweithredu strategaeth chwaraeon a hamdden integredig. |

5 Ym mis Hydref 2019, fe wnaethom ni gynnal adolygiad dilynol a ofynnodd y cwestiwn: **A all y Cyngor ddangos ei fod wedi cymryd camau effeithiol i fynd i'r afael â'n cynnig ar gyfer gwella a gyhoeddwyd yn 2016?**

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

6 Ar y cyfan, canfuom fod: **Y Cyngor wedi cymryd camau effeithiol i ddatblygu a chytuno ar weledigaeth a strategaeth gyfannol ar gyfer ei wasanaethau chwaraeon a hamdden, ond mae angen iddo gymryd camau pwysig ychwanegol er mwyn cyflawni ei uchelgeisiau strategol.** Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- ar ôl ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, cymeradwyodd y Cabinet strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol ddeng mlynedd, ac
- mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei gynllun cyflawni strategaeth er mwyn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, y gwaith sydd ei angen a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflawni ei strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol.

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau effeithiol i ddatblygu a chytuno ar weledigaeth a strategaeth gyfannol ar gyfer ei wasanaethau chwaraeon a hamdden, ond mae angen iddo gymryd camau pwysig ychwanegol er mwyn cyflawni ei uchelgeisiau strategol

### Ar ôl ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, cymeradwyodd y Cabinet strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol ddeng mlynedd

7 Ym mis Tachwedd 2018, cymeradwyodd y Cabinet Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol 2019-2029 y Cyngor (y Strategaeth). Dywedwyd wrthym yn ystod y gwaith maes, mai Strategaeth alluogi yw'r ddogfen 10 mlynedd hon a gaiff ei defnyddio i wneud penderfyniadau penodol yn ystod cyfnod y Strategaeth, megis penderfyniadau ynghylch rhesymoli canolfannau hamdden y Cyngor.

8 Mae tri chanlyniad allweddol a fwriedir gan y Strategaeth:

- Gwell Iechyd;
- Cymunedau Iachach a Ffyniannus; a
- Sicrhau cynnig mwy effeithlon a chynaliadwy yn ariannol yn y dyfodol.

9 Mae'r Strategaeth yn nodi'n glir na all y Cyngor barhau i ddarparu hamdden a chwaraeon yn yr un modd, ac na fydd yn gwneud.

10 Mabwysiadodd y Cyngor lasbrint Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol yng Nghymru: Cyfleusterau ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol[1]. Mae'r glasbrint yn darparu fframwaith i ddarparwyr cyfleusterau er mwyn eu helpu i lywio penderfyniadau cynaliadwy hirdymor ynghylch dylunio, darparu a chynnal adnoddau chwaraeon a hamdden.

11 Roedd gan y Cyngor gynllun cyfathrebu ac ymgysylltu clir wrth ymgynghori ar y Strategaeth ddrafft. Ar 27 Mehefin 2018, cymeradwyodd y Cabinet ymarfer ymgynghori ddeg wythnos ag amrywiaeth o randdeiliaid a arweiniodd at 711 o ymatebion ac 20 o ymatebion ysgrifenedig ychwanegol.

12 Gofynnodd y broses ymgynghori i'r ymatebwyr a oedd unrhyw ganlyniadau a/neu gamau ar goll, yn ogystal ag unrhyw effaith o ran rhesymoli'r canolfannau hamdden. Ar 8 Tachwedd 2018 ac 14 Tachwedd 2018, cafodd y Pwyllgor Craffu ar Adfywio a'r Amgylchedd a'r Cabinet, yn y drefn honno, adroddiadau ar ganlyniad y

[1] http://sport.wales/media/1701808/1165_sports_wales_facilities_for_future_generations_report_v8.pdf

broses ymgynghori gydag ymateb y swyddogion i sylwadau'r ymatebwyr yn ogystal â Strategaeth ddrafft ddiwygiedig.

13 Mae'r Strategaeth yn cyfeirio at y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn nodi cyllidebau'n lleihau, a nifer y canolfannau hamdden ar draws y Sir sy'n dirywio o ran ansawdd oherwydd eu hoedran, yn rhai o'r heriau allweddol wrth gyflawni'r Strategaeth.

14 Mae'r Strategaeth yn cysylltu â'r Amcanion Llesiant Corfforaethol:

- Amcan 1: Gwella cyfleoedd addysg i bawb, a gwella'r amgylchedd dysgu;
- Amcan 5: Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi dull byw iachus ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled y Fwrdeistref Sirol, a hynny yn unol ag Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; ac
- Amcan 6: Cefnogi dinasyddion i barhau'n annibynnol ac i wella eu llesiant – helpu pobl hŷn i barhau i fod yn rhan weithredol o'u cymunedau lleol.

15 Mae'r Strategaeth yn nodi mai'r gost o gynnal y canolfannau hamdden yw'r uchaf yng Nghymru, sef dros £1 miliwn y flwyddyn. Ar adeg cyhoeddi ei Strategaeth, amcangyfrifodd y Cyngor fod ei gymhorthdal y pen dros £1.50 yr ymweliad a nododd ei uchelgais i ostwng lefel y cymhorthdal i rywle rhwng £1 a £1.20 yr ymweliad. Mae'r Strategaeth yn nodi na ellir cyflawni hyn heb raglen i resymoli a moderneiddio'r canolfannau hamdden presennol.

16 Mae'r Cyngor wedi nodi rhwymedigaethau buddsoddiad cyfalaf sylweddol mewn canolfannau hamdden ar gyfer ei ganolfannau hamdden presennol. Mae gan y Cyngor raglen dreigl i ddiweddaru'r arolygon cyflwr ar gyfer pob canolfan hamdden. Ar adeg ystyried y Strategaeth, yn 2012 y cynhaliwyd arolygon cyflwr gwasanaeth cyfan y cyngor ar bortffolio'r canolfannau hamdden, ac amcangyfrifwyd rhwymedigaeth o ryw £3 miliwn. Ar adeg yr adolygiad hwn, roedd y Cyngor wedi diweddaru ei arolygon cyflwr ar gyfer naw o'r deg o ganolfannau hamdden, a diweddarwyd y rhwymedigaeth cynnal a chadw i £3.6 miliwn.

17 Roedd uwch swyddogion ac aelodau'n goruchwylio'n barhaus wrth i'r Strategaeth gael ei datblygu. Rhwng mis Tachwedd 2016 a mis Ionawr 2018, cafodd y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Gwella Gwasanaethau (Bwrdd y Rhaglen Gwella Busnes yn ddiweddarach) yr wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth a oedd yn datblygu, gan gynnwys gwasanaethau ymgynghorydd allanol i ddrafftio'r Strategaeth a'r cynllun cyflawni.

18 Ym mis Mehefin 2017, cafodd y Tîm Rheoli Corfforaethol adroddiad ar y Strategaeth a oedd yn datblygu, a gofynnodd swyddogion am arweiniad oddi wrth y Tîm Rheoli Corfforaethol o ran rhesymoli canolfannau hamdden a'r model rheoli yn y dyfodol. Nid yw'r Cyngor yn gallu darparu tystiolaeth o'r arweiniad a roddwyd i swyddogion gan y Tîm Rheoli Corfforaethol yn ystod y cyfarfod hwn.

19 Yn dilyn hynny, cafodd y Tîm Rheoli Corfforaethol y Strategaeth ddrafft ar 31 Mai 2018, ac ystyriodd y Cyfarfod Datblygu Polisi y Strategaeth ddrafft ar 6 Mehefin

2018[2]. Ystyriodd y Pwyllgor Craffu ar Adfywio a'r Amgylchedd y Strategaeth ddrafft ar 26 Mehefin 2018, a'r Cabinet yr un modd ddiwrnod yn ddiweddarach ar 27 Mehefin 2018.

20 Ar 8 Tachwedd 2018, yn dilyn proses ymgynghori ddeg wythnos, cafodd y Pwyllgor Craffu ar Adfywio a'r Amgylchedd y Strategaeth ddrafft ddiwygiedig ac yn dilyn trafodaeth, argymhellodd i'r Cabinet y dylai ei chymeradwyo. Ystyriodd y Cabinet yr ymatebion o'r ymgynghoriad â'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid ynghyd â'r Strategaeth ddrafft ddiwygiedig ar 14 Tachwedd 2018. Cymeradwyodd y Cabinet y Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol 2019-2029, a'i mabwysiadu'n ffurfiol.

## Mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei gynllun cyflawni strategaeth er mwyn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, y gwaith sydd ei angen a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflawni ei strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol

21 Bwriad datganedig y Cyngor yn y strategaeth yw:

*'Rhaid iddi bennu gweledigaeth ar gyfer yr hyn yr ydym am ei gyflawni **a'r ffordd y byddwn yn gwneud hynny**, fel bod pawb yn deall yr hyn sy'n bosibl, beth i'w ddisgwyl gennym, yn ogystal â'r rolau sydd gan eraill i'w chwarae.'*

22 Mae'r adran 'yr hyn y mae angen ei wneud' yn y Strategaeth o lefel uchel iawn ac yn llawn dyhead. Mae'n cynnwys gwybodaeth gyfyngedig am yr hyn y mae angen ei wneud mewn gwirionedd yn ystod y 10 mlynedd er mwyn cyflawni tri chanlyniad allweddol y Strategaeth. Er bod cwmpas y Cyngor a ddarparwyd i'r ymgynghorydd allanol yn 2016 yn cynnwys datblygu **cynllun cyflawni**, ar adeg ein gwaith maes yn 2019, nid oedd y Cyngor wedi datblygu cynllun o'r fath i helpu i gyflawni'r Strategaeth.

23 Mae gwaith y Cyngor o ddatblygu ei ddull o ddarparu'r strategaeth wedi ei gydgysylltu â nifer o brosiectau strategol eraill, gan gynnwys Band B rhaglen ysgolion yr 21ain Ganrif, dull 'llunio lle' datblygol y Cyngor a sefyllfa ariannol tymor canolig y Cyngor. Hefyd, bydd angen i'r Cyngor ystyried y gydberthynas â blaenoriaethau corfforaethol ehangach ac amcanion llesiant. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau bod sefydliadau partner, gan gynnwys y bwrdd iechyd lleol, yn cael eu cynnwys yn effeithiol. Dylai'r Cyngor adolygu ei ddull cyflawni yn rheolaidd yn ystod oes y Strategaeth.

24 Bydd angen i'r Cyngor sicrhau wrth gyflawni ei weledigaeth ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol er lles trigolion y fwrdeistref sirol, fod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd effeithlon, gydlynol a thryloyw gynaliadwy.

25 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod wedi cyflawni elfen o'n cynnig ar gyfer gwella o 2016 yn rhannol, sef ystyried 'a oes angen cryfhau gallu'r gwasanaeth i ddatblygu a gweithredu strategaeth chwaraeon a hamdden integredig'. Fel cam cyntaf,

[2] Cyfarfod anffurfiol rhwng Cabinet y Cyngor a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yw'r Cyfarfod Datblygu Polisi. Ni chedwir cofnodion ffurfiol ohono.

penododd y Cyngor Swyddog Marchnata yn y Gwasanaeth Chwaraeon a Hamdden ym mis Ionawr 2019 er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gweithgarwch corfforol ledled y fwrdeistref sirol trwy ddull clir a chyfannol. Wrth roi ei strategaeth ar waith, bydd angen i'r Cyngor ystyried ei allu mewnol a pha sgiliau a gwybodaeth ychwanegol, os o gwbl (er enghraifft: o ran y dewisiadau dylunio ar gyfer cyfleusterau newydd neu gyfleusterau sydd wedi eu huwchraddio, dadansoddiad o’r galw diweddaraf, ac ati) y bydd eu hangen er mwyn cyflawni elfennau penodol o'r strategaeth. Bydd angen i'r Cyngor ystyried a oes angen cynyddu’r gallu ar adegau penodol yn ystod oes y Strategaeth, a allai gynnwys ymgysylltu ag ymgynghorwyr neu bartneriaid allanol.

26 Dywedwyd wrthym yn ystod ein gwaith maes mai safbwynt polisi'r Cyngor yw cadw rheolaeth uniongyrchol ar gyfleusterau hamdden strategol. Hefyd, roedd gwaith ymgynghorydd allanol yn 2014 yn ystyried gwahanol ddewisiadau ar gyfer rheoli canolfannau hamdden y Cyngor yn y dyfodol a nododd bedwar lleoliad strategol yn y Fwrdeistref. Mae'r lleoliadau strategol hyn yn parhau ac yn cael eu hailadrodd yn Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol 2019-2029. Bydd y Cyngor yn ystyried dewisiadau ar gyfer y model gweithredu ar gyfer cyfleusterau eraill yn unol â'i fwriad datganedig yn ei strategaeth. Bydd y Cyngor yn llunio adroddiadau manwl sy’n nodi ystod o ddewisiadau ar gyfer dyfodol cyfleusterau unigol er mwyn gwneud penderfyniad. Bydd angen i'r Cyngor sicrhau hefyd ei fod yn cadw goruchwyliaeth a her gan uwch swyddog ac aelodau yn yr achosion busnes arfaethedig hynny.

27 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y Strategaeth yn ddogfen drosfwaol a gaiff ei defnyddio i wneud penderfyniadau penodol yn ystod oes y Strategaeth. Rydym yn cydnabod efallai y bydd y cyllid sydd ar gael ar gyfer chwaraeon a hamdden egnïol yn newid yn ystod oes y Strategaeth ac y bydd angen i'r Cyngor ddatblygu achosion busnes cadarn ar gyfer newid. Wrth ddatblygu'r achosion busnes hynny, bydd angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnal arfarniadau effeithiol o'r dewisiadau, gan gynnwys archwilio'r ystod ehangaf o ddewisiadau rheoli, modelau ariannol, y buddion, y risgiau a’r effeithiau, a'i fod yn ymgysylltu â'r cyhoedd y gall y newidiadau arfaethedig effeithio arnynt er mwyn mesur a deall effeithiau posibl y cynigion.

28 Er gwaethaf natur uchelgeisiol y Strategaeth, mae'n anodd mesur sut y bydd llwyddiant yn edrych ar ddiwedd y Strategaeth. Mae'r Cyngor yn cydnabod, er bod tudalen 12 y Strategaeth yn nodi nifer o ganlyniadau, y bydd angen iddynt ddatblygu'r rhain ymhellach yn ystod oes y Strategaeth.

29 Dywedodd y Cyngor wrthym yn ystod ein gwaith maes y bydd yn defnyddio ei Asesiadau Perfformiad y Gyfarwyddiaeth newydd (a ddechreuwyd ym mis Ebrill 2019) yn rhan o'u trefniadau ar gyfer **monitro** cyflawniad y Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egnïol. Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ystyried yr Asesiadau hyn bob chwarter ac mae'r pwyllgor craffu perthnasol yn derbyn dau asesiad bob blwyddyn. Mae Asesiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth yn nodi tair blaenoriaeth gwasanaeth ar gyfer Chwaraeon a Hamdden, sef:

1) gweithredu'r Strategaeth deng mlynedd ar gyfer Chwaraeon a Hamdden Egnïol;

2) paratoi a gweithredu cynigion ar gyfer datblygu Canolfan Hamdden Caerffili; a

3) datblygu gwaith partneriaeth â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydliadau partner eraill er mwyn gwella'r agenda iechyd a lles.

Rhoddodd diweddariad Asesiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth, a oedd ar gael ar adeg ein gwaith maes, yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau hyn:

1) buddsoddiad yng Nghanolfan Hamdden Trecelyn y cytunodd y Cabinet arno ym mis Ebrill. Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu i'w gwblhau ym mis Ionawr 2020. Mae dyfodol Canolfan Hamdden Pontllan-fraith yn parhau i gael ei ystyried. Lansiwyd ap Dull o Fyw hamdden newydd.

2) ar y gweill.

3) yn mynd rhagddo.

30 Ar hyn o bryd, mae Asesiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth yn cynnwys chwe mesur perfformiad sy'n ymwneud â Chwaraeon a Hamdden, sef:

- y gost net am bob ymweliad â chyfleusterau chwaraeon dan do (£);
- Sgôr Hyrwyddwr net – Sgôr Cwsmeriaid Hamdden (0-10);
- nifer y cyfranogwyr yng ngweithgareddau Datblygu Chwaraeon a'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff;
- nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon dan do ac awyr agored fesul 1,000 o'r boblogaeth;
- canran y plant 11 oed sy'n gallu nofio 25 metr; a
- nifer yr ymweliadau â Pharciau Gwledig.

31 Mae Asesiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth yn myfyrio hefyd ar gynnydd o ran cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni'r Amcan Llesiant corfforaethol i 'Creu Bwrdeistref Sirol sy'n cefnogi dull byw iachus ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled y Fwrdeistref Sirol, a hynny yn unol ag Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.

Mae gan yr amcan hwn ddau ganlyniad hirdymor ac, ar adeg y gwaith maes, nododd Asesiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth fod cynnydd da yn cael ei wneud ar yr Amcan hwn. Fodd bynnag, nododd Asesiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth hefyd ei bod yn anodd dangos effeithiau ar ganlyniadau iechyd o flwyddyn i flwyddyn, ond ein bod yn gallu dangos lefelau da o ran defnyddwyr y gwasanaethau a chyfranogiad cymunedol ar draws ystod eang o ymyriadau a mentrau.

32 Nid yw'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn Asesiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth yn cyfochri'n llwyr â chanlyniadau'r strategaeth, a gallai'r Cyngor ystyried adolygu'r mesurau y mae'n eu defnyddio ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ei fod yn gallu olrhain a gwerthuso cynnydd o ran canlyniadau datganedig y strategaeth. Ar hyn o bryd, ychydig o setiau data sydd gan Asesiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth i ddangos cynnydd o ran ail ganlyniad allweddol y strategaeth, sef 'cymunedau

iachach a ffyniannus', yn enwedig data sy'n dangos y gwelliant i gyfleusterau clybiau chwaraeon cymunedol, sy'n creu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan a llwyddo mewn chwaraeon ac i annog rhagor o wirfoddolwyr.

33 Mae'r Strategaeth yn datgan, drwy 'fabwysiadu'r strategaeth hon, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cydnabod bod chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yn gwneud cyfraniad sylweddol at ddulliau byw iach, addysg, yr economi ac adfywio ledled y Fwrdeistref Sirol'. Mae gan chwaraeon a hamdden egnïol swyddogaeth gadarnhaol o ran cyflawni amcanion corfforaethol a phartner ehangach, ac eto, nid yw mesurau Asesiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth yn adlewyrchu'r cyfraniad na'r effaith y gallai cyflawni'r Strategaeth hon ei chael ar y blaenoriaethau corfforaethol ehangach hynny.

34 Hefyd, mae gwella iechyd trigolion a chymunedau yn ganlyniadau allweddol i'r Strategaeth. Mae angen i'r Cyngor gael sicrwydd bod cysondeb rhwng canlyniadau allweddol y Strategaeth ddeg mlynedd a'r mesurau perfformiad a adroddir i uwch swyddogion ac aelodau drwy Asesiad Perfformiad y Gyfarwyddiaeth.

35 Er mwyn asesu cynnydd o ran cyflawni ei Strategaeth, efallai y bydd angen i'r Cyngor ystyried a oes angen mesurau newydd y tu hwnt i'r mesurau a gofnodir ar hyn o bryd. Gallai cyflwyno mesurau newydd arwain at yr angen am brosesau casglu a chofnodi data gwahanol, sy'n cymryd amser i'w treialu ac yna'u hymwreiddio yn yr arferion gweithio. O ran datblygu cynllun cyflawni, bydd angen i'r Cyngor ystyried pa wybodaeth y bydd yn ei defnyddio yn y dyfodol wrth fonitro ac adrodd ar gynnydd.

36 Nid cyfrifoldeb y gwasanaeth hamdden a chwaraeon yn unig yw gwella iechyd trigolion a chymunedau, ond mae'n chwarae rhan bwysig. Gallai gweithio gyda gwasanaethau eraill y Cyngor, partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill ag uchelgeisiau tebyg, sef gwella iechyd y cyhoedd, ddarparu gwybodaeth a chymorth ychwanegol trwy osod a helpu i gyflawni'r mesurau hynny a all helpu i bennu cynnydd ac i gyflawni canlyniadau cynaliadwy ac effeithiol yn ystod y broses o gyflawni'r strategaeth ddeng mlynedd. Mae strategaeth y Cyngor yn adlewyrchu'r angen i gydweithio ag eraill. Gallai cydweithrediadau presennol ac yn y dyfodol chwarae rhan yn y gwaith o gyflawni'r canlyniad strategol o wella canlyniadau iechyd.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru